## Tasg 2

# Dillad technolegol

1. Mae John yn sôn am ddillad technolegol.

    a. Pa ddillad?

    b. Beth mae'n ei feddwl o'r dillad hyn?

    c. Rhowch reswm dros eich ateb.

2. Nodwch wahanol fathau o ddillad technolegol – neu gyfwisgoedd (e.e. bagiau, watsys, gemwaith, esgidiau) – ac eglurwch beth maen nhw'n gallu ei wneud. Os nad ydych chi'n gwybod am lawer, chwiliwch am wybodaeth ym mheiriant chwilio'r rhyngrwyd. Defnyddiwch y term *wearable technology*.

    Ysgrifennwch am y dillad, e.e.

Siaced glyfar:





Mae'r siaced glyfar yma'n addas ar gyfer mynd ar antur gan ei bod yn drwchus ac yn wrth-ddŵr. Mae ganddi dyrbin gwynt bach gallwch chi ei defnyddio i bweru ffonau clyfar.

Lluniau © seymourpowell (http://www.seymourpowell.com/)

3. Rydych chi'n mynd i gynllunio dilledyn technolegol – dilledyn "clyfar".

    - Meddyliwch a chynlluniwch.
    - Tynnwch lun y dilledyn a'i labelu.
    - Ysgrifennwch ddisgrifiad manwl o'r dilledyn.
    - Dangoswch y dilledyn a darllenwch y disgrifiad i'r grŵp.

    Beth yw barn y grŵp? Rhaid rhoi rhesymau.